

Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig – Bil Bwyd (Cymru) Drafft Ymateb i'r ymgynghoriad gan Gynghrair Polisi Bwyd Cymru (FPAC)

27 Ionawr 2023

Mae'r ymateb hwn yn ystyried y pwyntiau trafod a godwyd yn sesiynau tystiolaeth lafar y pwyllgor ar 19 a 25 Ionawr 2023

A. Dull ambarél (systemau) troswaol o lunio polisiau sy'n gysylltiedig â bwyd

Mae'r ddeddfwriaeth sylfaenol sy'n rhoi'r system fwyd ar y rheng flaen (yn hytrach nag ar waelod eysydd polisiau eraill) yn rhoi cyfle i greu consensws sydd â chyd-weledigaeth ar gyfer ein system fwyd yng Nghymru. Byddai'n galluogi i waith cynllunio a datblygu strategol gael ei wneud er mwyn creu fframwaith statudol fwy cadarn a hirdymor ar gyfer polisi bwyd yng Nghymru. Fframwaith a fyddai'n gweithredu o fewn a thu hwnt i gylchoedd gwleidyddol a fydd yn cael ei ymgorffori'n gadarn ac yn egwyddorol mewn sefydliadau, a hynny yn yr hirdymor, er mwyn creu system fwyd wydn.

Mae'r Bil hwn yn bwysig gan fod y diffyg cysylltiad rhwng polisiau hyd yn hyn wedi arwain at greu negeseuon cymysg, colli cyfleoedd a dulliau gweithredu sy'n groes i'w gilydd.

Nid ydym yn teimlo y byddai trosglwyddo agweddau ar y Bil arfaethedig hwn i ddeddfwriaeth arall (e.e. Bil Amaethyddiaeth (Cymru) neu'r Bil Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael) yn ddull boddhaol, gan y byddai'n parhau i arwain at ddiffyg cysylltiad rhwng polisiau, neu waethygu hynny hyd yn oed. Er enghraifft, er y gellir cysylltu'r Bil Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael ag agweddau ar gaffael o fewn cynlluniau bwyd lleol, ni fyddai'n ystyried agweddau megis y rhai a nodir yn y nod bwyd eilaidd lechyd a Chymdeithasol, er enghraifft camau i liniaru diffyg diogeledd bwyd yn y cartref.

Enghraifft o ddiffyg cydlyniaeth ym mhollis Bwyd Cymru yw'r gormodedd o Unedau Dofednod Dwys (IPU) a'u heffaith trychinebus ar afonydd Cymru. Cafodd ffermwyr eu hannog i arallgyfeirio i unedau dofednod er mwyn cynyddu sicrwydd economaidd a chynhyrchiant bwyd, ond mae'n amlwg nad ystyriwyd effeithiau amgylcheddol hyn. Yn benodol, anwybyddwyd yr effaith gronnol cael nifer o'r unedau hyn yn yr un dalgyllch ac nid oes gan yr awdurdodau lleol y rheolaethau cynllunio angenrheidiol i'w rheoli. Mae Llywodraeth Cymru bellach yn ystyried cymryd cymhellion i fabwysiadu arferion ffermio cynaliadwy, drwy'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy; fodd bynnag nid yw'r cynllun na'r Bil Amaethyddiaeth (Cymru) yn sôn dim am bolisi cynllunio nac unrhyw beth a fyddai'n atal y dull amgylcheddol ddinistriol hwn o ffermio rhag parhau, hyd yn oed ffermwyr sy'n derbyn taliadau SFS.

B. Dull integredig o bennu nodau Bwyd

Mae'r nodau bwyd eilaidd a amlinellir yn yr ymgynghoriad yn sectorol ac yn groes i'r angen i fabwysiadu dull gweithredu integredig o ran y system fwyd. Mae'n werth nodi hefyd y gallai'r nod Gwastraff Bwyd fod yn rhan o Nod yr Amgylchedd gan fod gwastraff bwyd byd-eang yn cyfrannu rhwng 8 a 10 y cant o gyfanswm yr allyriadau nwyon tŷ gwyrdr. Mae FPAC wedi awgrymu Nodau Bwyd amgen fel y nodir yn ein ymateb i ymgynghoriad yn yr haf¹, sef targedau a fyddai'n cael eu pennu gan y Comisiwn. Yma rydym yn cynnig y gellir eu hintegreiddio yn y Bil drafft fel a ganlyn:

¹ https://www.foodsensewales.org.uk/app/uploads/sites/2/2022/10/Ymateb_BilBwydCymru_Cymraeg.pdf

Nod (Bil Bwyd Drafft)	Disgrifiad (awgrym FPAC)
Llesiant economaidd	<ul style="list-style-type: none"> Swyddi a bywoliaeth yn y sector bwyd cynaliadwy: Mae'r rhai sy'n gwneud eu bywoliaeth o'r system fwyd yn cael, neu'n gallu cael, o leiaf y cyflog byw neu wobr deg am eu gwaith ac mae'r gwaith yn rhydd o unrhyw arferion sy'n ecsbloetio, ac mae'n amrywiol, yn ymgysylltiol ac yn grymuso pobl (100% o swyddi i dalu'r cyflog byw gwirioneddol erbyn 2030) Caffael bwyd yn gynaliadwy: Caffael mwy o fwyd cyhoeddus gan gynhyrchwyr organig neu amaetnecolegol yng Nghymru (30% erbyn 2030)
Iechyd a Chymdeithasol	<ul style="list-style-type: none"> Bwyd i bawb: Sicrhau mai Cymru yw'r wlad gyntaf i ddileu'r angen am fanciau bwyd (erbyn 2030). Mae gan bawb yng Nghymru fynediad i'r bwyd sydd ei angen arnynt a hynny gydag urddas, er mwyn gallu byw bywyd iach. Bwyd er budd iechyd y cyhoedd: Cynyddu'r llysiâu sy'n cael eu bwyta, a'r rheini'n cael eu cynhyrchu'n gynaliadwy yng Nghymru ar gyfer pobl Cymru (75% o ddognau llysiâu Bwyta'n Iach erbyn 2030).
Addysg	<ul style="list-style-type: none"> Darpariaeth addysg ar faterion sy'n gysylltiedig â bwyd ym mhob cyfnod allweddol ym mhob ysgol.
Yr Amgylchedd	<ul style="list-style-type: none"> Ffermio ar gyfer natur a hinsawdd: Cynyddu cyfanswm y cynnyrch amaethecolegol (100% erbyn 2035). System fwyd Sero Net: System fwyd sero net i Gymru (erbyn 2035). Ôl-troed amgylcheddol byd-eang: gostyngiad o 75% yn yr ôl-troed amgylcheddol ar gyfer cynhyrchu a bwyta bwyd gartref a thramor erbyn 2035.
Gwastraff	(ymdrinnir â hyn o dan y nodau Amgylchedd a Llesiant Economaidd)

Byddem yn cefnogi'r gofyniad trosfwaol i ystyried y nodau gyda'i gilydd a phan ddatblygir mesur i fynd ar drywydd un nod, bod ystyriaeth yn cael ei rhoi i'r effaith ar y nodau eraill.

C. Hyd y broses ddeddfwriaethol

Mae'r ddeddfwriaeth yn hanfodol i greu cynaliadwyedd hirdymor ar gyfer y System Fwyd yng Nghymru sy'n disodli cylchoedd gwleidyddol. Nid yw'r broses ddeddfwriaethol yn atal y broses o ddatblygu polisiau sy'n gysylltiedig â bwyd yn y cyfamser ac, yn wir, bydd y broses o drafod, ymgynghori a datblygu Bil Bwyd (Cymru) ymhellach gosod y sylfeini ar gyfer y ddeddfwriaeth arfaethedig (gan gydnabod y ffaith nad oes Comisiwn o hyd yn ystod y cyfnod hwn a'r rôl hanfodol y byddai'n ei chwarae o ran darparu goruchwyliaeth er mwyn sicrhau integreiddio gwell ar draws adrannau sy'n ymwneud â

pholisïau sy'n gysylltiedig â bwyd). Un enghraifft fyddai ymrwymiad y Rhaglen Lywodraethu i ddatblygu Strategaeth Bwyd Cymunedol. Gallai'r strategaeth hon fod yn sail i ddatblygu'r seilwaith sydd ei angen i gefnogi cyrff cyhoeddus i ddatblygu ac i gyflawni cynlluniau bwyd lleol, gwaith sydd eisoes ar y gweill drwy fuddsoddiad gwerth £2.5 miliwn gan Lywodraeth Cymru mewn partneriaethau bwyd traws-sector².

Ch. Fformat a rôl y Comisiwn a'r Comisiynydd

Nid yw'r Bil wedi mynd mor bell ag awgrymu Comisiynydd Bwyd penodedig i Gymru. Credwn y dylai Comisiynydd Bwyd, ynghyd â'r Comisiwn Bwyd, fod yn gyfrifol am gyflawni'r broses gydgyhyrchu (cydweithio a chynnwys) i ddatblygu Strategaeth Fwyd Genedlaethol i Gymru, gan gychwyn o'r cwr. Byddai'r Comisiwn yn cyflwyno Strategaeth ddrafft, yn seiliedig ar egwyddorion cydgyhyrchu, i Weinidogion Cymru ei chymeradwyo. Bydd y Comisiwn sy'n arwain y broses hon yn helpu i sicrhau bod y strategaeth wedi'i hintegreiddio ar draws blaenoriaethau adrannol Llywodraeth Cymru.

Mae'r gofyniad i integreiddio a chydweithredu yn golygu bod angen i gyrff cyhoeddus a Gweinidogion gydweithio i gael synergedd ac i sicrhau cyfatebiaeth rhwng polisiau ar draws adrannau sy'n cefnogi ei weledigaeth o lesiant ar gyfer cenedlaethau presennol a chenedlaethau'r dyfodol- dyma'r hyn y dylai'r Bil Bwyd geisio ei wneud ar gyfer polisiau sy'n gysylltiedig â bwyd, yn seiliedig ar y Strategaeth Fwyd Genedlaethol i Gymru sydd wedi'i chyd-gynhyrchu. Dylai'r Comisiwn Bwyd fod yn gyfrifol am lywio'r broses o integreiddio polisiau sy'n gysylltiedig â bwyd ar draws portffolio Gweinidogion. Y Comisiynydd Bwyd, yn hytrach na Chadeirydd y Comisiwn Bwyd, ddylai fod yn gyfrifol am lywio'r broses hon gan weithredu fel arweinydd i'r gymuned System Fwyd ehangach.

D. Y cyd-destun yn y DU ac yn rhyngwladol

O dan yr amgylchiadau presennol byddai'n bragmataidd ac yn strategol i Senedd Cymru greu fframwaith statudol fwy cadarn a hirdymor ar gyfer ei pholisi bwyd. Mae llawr o'r meysydd polisi canolog sy'n effeithio ar ein system fwyd (h.y. polisi masnach, polisi economaidd rhanbarthol, polisi amgylcheddol, polisi bwyd a ffermio) bellach yn dod yn fwy (yn hytrach nag yn llai) agored i wleidyddiaeth pleidiau a'r cylch gwleidyddol cymharol fyr. Mae'r consensws gwleidyddol ynghylch cynlluniau cymorth wedi diflannu, ac yn wir, yn sgil dadreoleiddio rheoliadau'r UE sy'n weddill o ganlyniad i'w gymal 'machlud' cyn diwedd 2023, (h.y. Bil Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Dirymu a Diwygio) sy'n cael eu prosesu gan Senedd y DU ar hyn o bryd), rydym yn debygol o weld dadreoleiddio pellach. Yn ogystal, mae'r hyn a welwyd yn San Steffan yn ddiweddar yn dangos, heb ddeddfwriaeth i orfodi ac yn absenoldeb dull megis Comisiwn/Comisiynydd Bwyd i ddylanwadu, gall y Llywodraeth anwybyddu neu ddad-flaenoriaethu Strategaethau Bwyd yr ymchwiliwyd yn dda iddynt, yr ymgynghorwyd arnynt yn fanwl ac sy'n cael eu cefnogi (Strategaeth Fwyd Genedlaethol Henry Dimbleby).

Dd. Sut y gall y Bil Bwyd hyrwyddo mynediad i Farchnadoedd newydd?

Gall y Bil hyrwyddo marchnadoedd newydd drwy ddod â gwahanol adrannau o'r llywodraeth a chyrrff cyhoeddus at ei gilydd a thrwy weithio gyda sefydliadau perthnasol o'r sector preifat a chymunedol i ddatblygu llwybrau newydd i'r farchnad.

Enghraifft o sut y gall gweithio ar draws y system fwyd mewn ffordd integredig greu cadwyni cyflenwi lleol a chynaliadwy newydd tra'n hyrwyddo addysg fwyd mewn ysgolion yw'r Cynllun Peilot

² <https://www.synnwyrbwycymru.org.uk/gweinidog-cyfiawnder-cymdeithasol-yn-cyhoeddi-cefnogaeth-ar-gyfer-partneriaethau-bwyd-ar-draws-cymru/>

Courgettes³. Fel rhan o'r cynllun peilot hwn dosbarthwyd courgettes gan Blas Gwent, sef tyfwr amaethecolegol wedi'i leoli yn ne Cymru, i ysgolion Caerdydd a hynny drwy fanwerthwr o Gymru, sef Castell Howell gyda chymorth Partneriaeth Bwyd Cynaliadwy, Bwyd Caerdydd, Cyngor Dinas Caerdydd a'r ysgolion sy'n cymryd rhan.

Pe byddai Llywodraeth Cymru yn ymrwmo i sicrhau bod pob pryd bwyd ysgol gynradd yn cynnwys 2 ddogon o lysiau ar gyfer y flwyddyn ysgol nesaf byddai'n rhaid cyflenwi 5331 tonnelli o lysiau i'r ysgolion. Pe byddai hyn i gyd yn llysiâu amaethecolegol wedi'u tyfu yng Nghymru byddai hyn yn creu marchnad sicr i gynhyrchwyr amaethecolegol yng Nghymru, gwerth oddeutu £15 miliwn. Byddai hyn yn golygu dyblu'r ardal i dyfu llysiâu mewn cae yng Nghymru a byddai'n cefnogi bron i 100 o fusnesau ac yn cyflogi bron i 1000 o bobl. Byddai'n cael effaith ganlyniadol hefyd drwy ddatblygu rhwydwaith ranbarthol a chadarn o gynhyrchwyr bwyd sy'n gallu cyflenwi llysiâu i'w cymunedau.

E. Diffiniadau

Mae FPAC yn pryderu ynghylch y diffiniad o 'fwyd lleol' yn y Bil – nid bwyd lleol yw'r bwyd mwyaf cynaliadwy yn amgylcheddol (na'r bwyd iachaf) bob tro. Dylai'r Comisiwn Bwyd i Gymru fod â'r gallu i ddiffinio 'bwyd lleol' gan gofio hyn. Dylai unrhyw ddiffiniad o fwyd lleol bob amser ystyried y dull cynhyrchu megis safonau organig, gwobrau Gweinir Bwyd am Oes Yma, 'Pasture for Life' a Masnach Deg.

Cynghrair o sefydliadau a rhanddeiliaid sy'n creu ac yn hyrwyddo gweledigaeth gyfunol ar gyfer y system fwyd yng Nghymru yw [Cynghrair Polisi Bwyd Cymru](#).

Drwy gydweithredu, ymgysylltu ac ymchwilio, nod y Gynghrair yw:

- Cydgynhyrchu gweledigaeth ar gyfer y system fwyd yng Nghymru sy'n cysylltu'r broses gynhyrchu, cyflenwi a bwyta ac sy'n ystyried iechyd a lles pobl a natur yn gyfartal.
- Eirioli i newid polisiâu i fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd ac ecolegol, argyfwng iechyd y cyhoedd a'r cynnydd mewn ansicrwydd bwyd.
- Sicrhau bod Cymru yn cael ei gysylltu â pholisi'r DU, cyfleoedd ymchwil a'r system fyd-eang yn ehangach

Cyfrannodd yr aelodau canlynol o Gynghrair Polisi Bwyd Cymru i'r ymateb hwn:

Synnwyr Bwyd Cymru; Ffermydd a Gerddi Cymdeithasol; Gweithwyr y Tir – 'Landworkers' Alliance Cymru'; 'Urban Agriculture Consortium'; Rhwydwaith Ffermio Er Lles Natur; WWF Cymru; RSPB Cymru; Cymdeithas y Pridd Cymru; Dr Angelina Sanderson Bellamy, Athro Cymdeithas Systemau Bwyd, Prifysgol Bryste (UWE); Yr Athro Terry Marsden, Prifysgol Caerdydd; Simon Wright, Cyfarwyddwr Bwyd ac Economi Wledig, Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant

³ <https://www.synnwyrbwydcymru.org.uk/llysiâu-o-gymru-i-ysgolion-cynradd-cymru-sut-gallai-cynllun-buddsoddi-newydd-mewn-cadwyni-cyflenwi-cynaliadwy-arwain-at-gynhyrchu-mwy-o-lysiâu-drwy-ddulliau-agroecolegol/>

Efallai y caiff yr ymgynghoriad hwn ei gyhoeddi a chaiff ei gyhoeddi hefyd ar <https://www.synnwyrbwydcymru.org.uk/good-food-advocacy/food-policy-alliance-cymru/>

Gellir anfon unrhyw ymholiadau at foodsensewales@wales.nhs.uk